**COFNOD PENDERFYNIADAU'R CYNGOR – 16 MEDI 2020**

**Yn Bresennol:**

**Y Cynghorwyr:** SE Baldwin – Maer

| | | | |
|---|---|---|---|
| TH Beedle | JPD Blundell | NA Burnett | MC Clarke |
| N Clarke | RJ Collins | HJ David | P Davies |
| PA Davies | SK Dendy | DK Edwards | J Gebbie |
| CA Green | T Giffard | RM Granville | DG Howells |
| A Hussain | RM James | M Jones | DRW Lewis |
| JE Lewis | JR McCarthy | D Patel | RL Penhale-Thomas |
| AA Pucella | KL Rowlands | B Sedgebeer | RMI Shaw |
| CE Smith | SG Smith | JC Spanswick | RME Stirman |
| G Thomas | T Thomas | JH Tildesley | E Venables |
| SR Vidal | MC Voisey | LM Walters | KJ Watts |
| CA Webster | DBF White | PJ White | A Williams |
| AJ Williams | HM Williams | JE Williams | RE Young |

**Swyddogion:** M Shephard, L Harvey, J Nightingale, K Watson, Z Shell, L Kinsey, M Morgans, D Exton, I Sherwood, J Parsons, G Denning, N Smith, A Rees a K Stephens

**Datganiadau Budd**

Gwnaed y Datganiadau Budd canlynol:

Y Cynghorydd S Baldwin - Budd Personol yn yr eitem ar y Cyflwyniad ar Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r Rhaglen o Gyflwyniadau i'r Cyngor yn y Dyfodol gan ei fod yn adnabod Cyfarwyddwr Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Y Cynghorydd PA Davies - Budd Personol yn yr eitem ar y Cyflwyniad ar Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r Rhaglen o Gyflwyniadau i'r Cyngor yn y Dyfodol gan ei bod yn adnabod Cadeirydd y Bartneriaeth Economaidd Ranbarthol a'r Panel Buddsoddi.

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Cyflwyniad ar Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r Rhaglen o Gyflwyniadau i'r Cyngor yn y Dyfodol** |
| Penderfynwyd | Bod y Cyngor:<br>• yn nodi'r cyflwyniad gan Gyfarwyddwr Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a Chadeirydd Partneriaeth Twf Economaidd Rhanbarthol Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.<br>• yn nodi'r rhaglen o gyflwyniadau i'r Cyngor yn y dyfodol fel yr amlinellwyd ym mharagraff 3.3 yr adroddiad. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Adroddiad Blynyddol Alldro Rheoli'r Trysorlys 2019-20** |
| Penderfynwyd | Bod y Cyngor:<br><br>• Yn cymeradwyo gweithgareddau blynyddol rheoli'r trysorlys ar gyfer 2019-20;<br>• Yn cymeradwyo gwir ddangosyddion Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2019-20 yn erbyn y rhai a |

| | |
|---|---|
| | gymeradwywyd yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2019-20. Nodwyd yr Alldro Cyfalaf ar gyfer 2019-20 (Atodiad A i'r adroddiad)<br>• yn nodi Rhaglen Gyfalaf y Cyngor 2020-21 diweddariad Chwarter 1 hyd at 30 Mehefin 2020 (Atodiad B i'r adroddiad)<br>• yn cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig (Atodiad C i'r adroddiad)<br>• yn nodi'r Dangosyddion Darbodus a Dangosyddion Eraill rhagamcanol ar gyfer 2020-21 (Atodiad D i'r adroddiad) |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Cynllun Corfforaethol wedi'i Ddiweddaru 2018-2022 Adolygwyd ar gyfer 2020-21, yn dilyn Effaith Covid-19** |
| Penderfynwyd | Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r diweddariadau i'r Cynllun Corfforaethol 2018-2022 a adolygwyd ar gyfer 2020-21 ac a atodwyd fel Atodiad A ac yn mabwysiadu'r Cynllun Corfforaethol diwygiedig a atodwyd fel Atodiad B. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Cynllun Datblygu Lleol Pen-y-bont ar Ogwr - Cytundeb Cyflawni Diwygiedig** |
| Penderfynwyd | Bod y Cyngor:<br>• yn cymeradwyo'r diwygiadau i'r amserlen a'r Cynllun Cynnwys y Gymuned ac yn awdurdodi'r Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu i gyflwyno'r Cytundeb Cyflawni Diwygiedig (a atodwyd fel Atodiad 2) i Lywodraeth Cymru; ac<br>• yn rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Rheolwr Grŵp Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu wneud cywiriadau ffeithiol neu fân ddiwygiadau i'r Cytundeb Cyflawni fel bo angen. |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | **Adroddiadau er Gwybodaeth i'w Nodi** |
| Penderfynwyd | Bod y Cyngor yn cydnabod cyhoeddi'r dogfennau a restrwyd yn yr adroddiad hwn. |